

# Eich canllaw i Wneud ewyllys

## Pwy ddylai wneud ewyllys?

Os yw'r hyn a fydd yn digwydd i'ch eiddo ar ôl i chi farw yn bwysig i chi, dylech wneud ewyllys. Heb un, y wladwriaeth sy'n rheoli pwy sy'n etifeddu, ac efallai na chaiff eich ffrindiau, eich hoff elusennau na'ch perthnasau unrhyw beth.

Mae'n bwysig iawn gwneud ewyllys os nad ydych yn briod neu os nad ydych mewn partneriaeth sifil gofrestredig (cytundeb cyfreithiol sy'n rhoi i bartneriaid o'r un rhyw yr un statws â phâr priod). Y rheswm dros hyn yw nad yw'r gyfraith yn cydnabod yn awtomatig fod gan gydbreswylwyr (partneriaid sy'n byw gyda'i gilydd) yr un hawliau â gwŷr, gwagedd a phartneriaid sifil. O ganlyniad, hyd yn oes os buoch yn byw gyda'ch gilydd am flynyddoedd lawer, gall eich partner gael ei adael heb ddim byd os nad ydych wedi gwneud ewyllys.

Mae ewyllys hefyd yn hollbwysig os oes gennych blant neu ddibynnyddion na allant ofalu amdanynt eu hunain. Heb ewyllys gallai fod ansicrwydd ynghylch pwy fydd yn gofalu amdanynt neu'n darparu ar eu cyfer os byddwch yn marw.

Gall eich cyfreithiwr hefyd roi cyngor i chi ar sut mae treth etifeddiant yn effeithio ar yr hyn yr ydych yn berchen arno.

## Dylech hefyd ystyried cymryd cyngor cyfreithiol ar wneud ewyllys:

- os bydd sawl person yn gallu hawlio ar eich ystad pan fyddwch yn marw am eu bod yn dibynnu arnoch yn ariannol;
- os ydych am gynnwys ymddiriedolaeth yn eich ewyllys (efallai i ddarparu ar gyfer plant ifanc neu berson anabl, arbed treth, neu ddiogelu eich asedau mewn rhyw ffordd ar ôl i chi farw);
- os nad yw eich cartref parhaol yn y DU neu os nad ydych yn ddinesydd Prydeinig;
- os ydych yn byw yma ond bod gennych eiddo dramor; neu
- os ydych yn berchen ar fusnes cyfan neu ran o fusnes.

Unwaith y byddwch wedi gwneud ewyllys, gall rhai newidiadau yn eich amgylchiadau - er enghraifft, priodas, partneriaeth sifil, gwahanu, ysgariad neu os caiff eich partneriaeth sifil ei diddymu (ei therfynu'n gyfreithiol) - wneud rhan neu'r cyfan o'r ewyllys honno yn annilys neu'n annigonol. Golyga hyn fod yn rhaid i chi adolygu eich ewyllys yn rheolaidd, i adlewyrchu unrhyw newidiadau mawr yn eich bywyd. Gall cyfreithiwr ddweud wrthyhch pa newidiadau y gall fod angen eu gwneud i ddiweddarau eich ewyllys.

## Defnyddio cyfreithiwr

Er ei bod yn bosibl ysgrifennu ewyllys heb gymorth cyfreithiwr, nid yw hyn yn beth doeth yn gyffredinol am fod gwahanol ffurfioldebau cyfreithiol y mae angen i chi eu dilyn i sicrhau bod eich ewyllys yn ddilys. Heb gymorth arbenigwr, mae risg wirioneddol y gallech wneud camgymeriad, a allai achosi problemau i'ch teulu a'ch ffrindiau ar ôl eich marwolaeth.

## Dod o hyd i gyfreithiwr

Os oes angen i chi wneud ewyllys ond nad oes gennych gyfreithiwr, gallwch ddod o hyd i un yn [www.lawsociety.org.uk/findasolicitor](http://www.lawsociety.org.uk/findasolicitor) Chwiliwch o dan 'Wills and Probate'. Neu gallwch ffonio 020 7320 5650.

## Beth y bydd angen i'ch cyfreithiwr ei wybod

Unwaith y byddwch wedi penodi cyfreithiwr, bydd angen iddo gael y manylion canlynol gennych.

### Beth sy'n eiddo i chi

Manylion am bopeth yr ydych yn berchen arno, gan gynnwys eiddo, ceir, eitemau gwerthfawr personol, stociau a chyfranddaliadau, cyfrifon banc, polisïau yswiriant, unrhyw fusnesau yr ydych yn berchen arnynt, a phensiynau.

### Pwy sy'n cael beth?

I bwy yr ydych am adael yr asedau hyn? Sut yr hoffech rannu eich eiddo rhwng eich anwyliad, ffrindiau neu elusennau? A oes unrhyw amodau yr ydych am eu gosod ar y rhoddion hyn (er enghraifft, bod yn rhaid i bobl ifanc gyrraedd oedran penodol cyn y telir arian yr ydych wedi'i adael iddynt)?

### Teulu a buddiolwyr eraill

Manylion eich teulu a'ch statws. A ydych wedi ysgaru neu a yw eich partneriaeth sifil wedi'i diddymu? A ydych wedi ailbriodi neu wedi ffurfio partneriaeth sifil newydd? Neu a ydych yn byw gyda rhywun fel partner heb fod yn briod ag ef/hi neu mewn partneriaeth sifil? A oes gennych unrhyw blant neu ddibynnyddion eraill?

Gall unrhyw un sy'n dibynnu arnoch yn ariannol ofyn i lys adolygu eich ewyllys os yw'n teimlo nad ydych wedi darparu'n briodol ar ei gyfer. Os rhowch fanylion perthnasol i'ch cyfreithiwr, gall ddweud wrthyhch am unrhyw flaglau cyfreithiol.

### Gwarcheidwaid

Os oes gennych unrhyw blant a all fod o dan 18 oed pan fyddwch yn marw, efallai y bydd angen i chi enwi rhywun fel eu gwarcheidwad cyfreithiol.

### Dymuniadau eraill

A oes gennych unrhyw ddymuniadau penodol ar gyfer eich angladd? A ydych am gael eich claddu neu i'ch corff gael ei losgi? A oes unrhyw gyfarwyddiadau eraill? Er enghraifft, os hoffech roi organau gellir cynnwys hynny yn eich ewyllys. Fodd bynnag, mae bob amser yn syniad da cofnodi eich dymuniadau ar y gofrestr rhoddwyr organau, neu gario cerdyn rhoddwr organau.

### Ysgutorion eich ewyllys

Rhaid i chi hefyd enwi'r bobl yr ydych am eu penodi'n 'ysgutorion' eich ewyllys - y bobl sy'n gweinyddu'r ewyllys ar ôl eich marwolaeth. Gallent fod yn ffrindiau neu'n aelodau o'r teulu, neu'n berson proffesiynol megis eich cyfreithiwr. Yn ddelfrydol, dylech ddewis rhywun sy'n gyfarwydd â materion ariannol. Gwnewch yn siŵr eich bod yn gofyn i'ch ysgutorion a ydynt yn fodlon derbyn y ddyletswydd hon am fod cyfrifoldebau hirdymor yn gysylltiedig â hi, yn arbennig os byddwch yn cynnwys ymddiriedolaeth yn eich ewyllys.

## Eich canllaw i Wneud ewyllys

### Llofnodi'r ewyllys

Unwaith y bydd yr ewyllys wedi'i pharatoi ni fydd yn dod i rym hyd nes y caiff ei llofnodi. Mae nifer o reolau sy'n effeithio ar y broses lofnodi a fydd yn annylsu eich ewyllys os na chânt eu dilyn yn gywir. Er enghraifft, ni all tystion na'u gwŷr, eu gwragedd na'u partneriaid sifil elwa o dan yr ewyllys. Mae llawer o bobl yn defnyddio staff yn swyddfa eu cyfreithiwr i weithredu fel eu tystion i osgoi'r broblem hon.

### Ble i gadw'r ewyllys

Mae'n bwysig eich bod yn cadw eich ewyllys mewn lle diogel ac yn dweud wrth eich ysgutorion, ffrind agos neu berthynas ymhle y mae. Mae pobl yn aml yn gofyn i'w cyfreithiwr gadw eu hewyllys ar eu rhan. Bydd y rhan fwyaf o gyfreithwyr yn gwneud hyn am ddim, ond weithiau codir ffi fach.

### Diweddaru eich ewyllys

Dylech adolygu eich ewyllys o leiaf unwaith bob pum mlynedd ac ar ôl unrhyw newid sylweddol yn eich bywyd megis gwahanu, priodi neu ysgaru, cael plentyn neu symud tŷ. Mae'n well ymdrin ag unrhyw newidiadau mawr drwy baratoi ewyllys newydd. Ond mae hefyd yn bosibl gwneud mân newidiadau (codisiliau) i'ch ewyllys bresennol. Yn y ddau achos mae'n well ymgynghori â chyfreithiwr.

### Costau

Gall y tâl a godir am baratoi ewyllys amrywio o gyfreithiwr i gyfreithiwr.

Mae hefyd yn dibynnu ar:

- brofiad a gwybodaeth y cyfreithiwr;
- pa mor gymhleth yw eich ewyllys.

Cyn i chi benderfynu pwy i'w ddefnyddio, cysylltwch â rhai cyfreithwyr i weld faint y maent yn ei godi. Ond cofiwch nad y pris yw'r unig ystyriaeth. Mae'r un mor bwysig dod o hyd i gyfreithiwr y mae'n hawdd siarad ag ef ac yr ydych yn deall ei gyngor.

### Rhagor o wybodaeth

Mae'r daflen hon yn un o gyfres o daflenni am ddim sy'n ymdrin â'r mathau mwyaf cyffredin o wasanaethau cyfreithiol a ddarperir gan gyfreithwyr. Rhestrir taflenni eraill yn y gyfres isod.

Maent ar gael oddi wrth eich cyfreithiwr neu o  
[www.lawsociety.org.uk/commonlegalproblems](http://www.lawsociety.org.uk/commonlegalproblems)

Eich canllaw i ddod o hyd i gymorth cyfreithiol arbenigol

Eich canllaw i brynu cartref

Eich canllaw i gael ysgariad

Eich canllaw i broblemau yn y gwaith

Eich canllaw i sefydlu busnes

Eich canllaw i wneud cais am iawndal oherwydd anaf personol

Eich canllaw i faterion ariannol ar gyfer pobl hŷn

Eich canllaw i roi eich eiddo ar rent

Eich canllaw i rentu cartref

Eich canllaw i ddefnyddio cyfreithiwr

Eich canllaw i brofiant

Eich canllaw i hawlio lloches

Eich canllaw i ymgartrefu gyda'ch partner

Gallwn ddarparu'r wybodaeth yn y daflen hon mewn fformatau ac ieithoedd eraill ar gais.

Cysylltwch â ni ar **020 7320 5832** neu e-bostiwch [accessibility@lawsociety.org.uk](mailto:accessibility@lawsociety.org.uk)

Lexcel

Chwiliwch am Lexcel – y nod rhagoriaeth ar gyfer cyfreithwyr

The Law Society 113 Chancery Lane London WC2A 1PL [www.lawsociety.org.uk](http://www.lawsociety.org.uk)

Er i ni wneud pob ymdrech i ddarparu gwybodaeth gywir, mae'r gyfraith yn newid o hyd ac yn effeithio ar bob person yn wahanol. Nid yw'r daflen hon yn disodli cyngor penodol a roddir i chi yn bersonol ac ni fyddwn yn atebol i chi os byddwch yn dibynnu ar y daflen hon.

Dyluniwyd gan dmlmarketing.co.uk Fersiwn 4, 2012 LSwill